Y CYNGOR SIR
DYDD MERCHER, 9 HYDREF 2024

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd H. L Davies (Cadeirydd) (Yn y Siambr)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

K.V. Broom	J.M. Charles	P. Cooper	M.D. Cranham
D.M. Cundy	W.R.A. Davies	B. Davies	G. Davies
L. Davies	T. Davies	M. Donoghue	A. Evans
D.C. Evans	H.A.L. Evans	L.D. Evans	N. Evans
R.E. Evans	J.K. Howell	P.M. Hughes	P. Hughes-Griffiths
M. James	B.W. Jones	A.C. Jones	D. Jones
H. Jones	A. Lenny	M.J.A. Lewis	N. Lewis
K. Madge	D. Nicholas	D. Owen	M. Palfreman
B.D.J. Phillips	D. Pris	S.L. Rees	B.A.L. Roberts
H.B. Shepardson	E. Skinner	R. Sparks	D. Thomas
G.B. Thomas	M. Thomas	J. Tremlett	A. Vaughan Owen

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

S.M. Allen	A. Davies	C.A. Davies	T.A.J. Davies
C. Davies	K. Davies	Ll. M. Davies	S.L. Davies
W.T. Evans	S. Godfrey-Coles	J.P. Hart	T.M. Higgins
JD. James	R. James	G.R. Jones	A. Leyshon
A.G. Morgan	E. Rees	E.M.J.G. Schiavone	J. Seward
F. Walters	P.T. Warlow	D.E. Williams	J. Williams
S. Williams			

Hefyd yn bresennol:
Mrs Daphne Evans, Is-gadeirydd – Y Pwyllgor Safonau (Eitem 6)
Mr David MacGregor, Cadeirydd – Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (Eitem 7).

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
W. Walters, Prif Weithredwr;
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol;
G. Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant;
A. Williams, Cyfarwyddwr Lle a Seilwaith;
S. Murphy, Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a'r Gwasanaethau Sifil;
G. Morgan, Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd;
C. Higginson, Rheolwr y Cyfryngau;
L. Jenkins, Swyddog Cymorth y Cabinet;
S. Rees, Cyfieithydd ar y Pryd;
D. Hall-Jones, Swyddog Cymorth Aelodau;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):
E. Evans, Pen-swyddog y Gwasanaethau Democrataidd;
M. Runeckles, Swyddog Cymorth Aelodau;
J. Hawker, Swyddog Cymorth Digidol;
R. Morris, Swyddog Cymorth Aelodau.

Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell: 10:00am – 12:20pm

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Liam Bowen, Suzy Curry, Deian Harries, Gareth John ac Edward Thomas.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
Martyn Palfreman	10.1 - Cyflwynwyd Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorwyr Alex Evans a Louvain Roberts	Mae'n rhedeg Ymgynghoriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r Cynghorydd Palfreman wedi cael gollyngiad i siarad ond nid pleidleisio yng nghyfarfodydd Cyngor Sir Caerfyrddin mewn perthynas â darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin ac ar draws Rhanbarth De-orllewin Cymru.
Jason P. Hart	12.1 - Cwestiwn gan y Cynghorydd Deryk Cundy i'r Cynghorydd Glynog Davies, yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg	Mae ei bartner yn gweithio yn Ysgol Heol Goffa.

3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

- Cyhoeddodd y Cadeirydd ei fod, ynghyd â'i Gydymaith, wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau dros y mis diwethaf oedd yn cynnwys Gwasanaeth Dinesig Sir Fynwy a Gŵyl Gorslas. Yn ogystal, cafodd y fraint o gwrdd â'i Uchelder Brenhinol y Tywysog William yn ysgol Gynradd Dyffryn y Swistir ar ymweliad annisgwyl i gwrdd â'r disgyblion a'r athrawon.

- Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi mynd i agoriad Ffair Haf Castell-nedd.

- Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn falch iawn o gael ei wahodd i fynd i Gapel Bethania, y Tymbl Uchaf i agor seremoni cyflwyno medalau i gyn-filwr rhyfel 103 oed, Basil Smith. Cafodd Mr Smith ei fedalau anrhydeddus 83 mlynedd ar ôl gadael yr Awyrlu Brenhinol.

- Eglurodd y Cadeirydd ei fod wedi cael cyfle unigryw i gwrdd â'r Olympiaid a'r Paralympiaid Cymreig yn y Senedd yng Nghaerdydd i dalu teyrnged a chydnabod eu llwyddiannau a'u perfformiadau ym Mharis.

- Dywedodd y Cadeirydd fod noson hyfryd wedi ei chael yng Nghinio'r Cadeirydd a gynhaliwyd yng Nghlwb Rygbi Llanymddyfri gyda'r siaradwr gwadd Mr Garry Owen. Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolchiadau arbennig i'w gyd-Gynghorwyr a oedd wedi cefnogi'r elusennau a ddewiswyd ganddo; Latch a Prostate Cymru drwy fynd i'r noson a oedd wedi codi £4,000 hyd yma, dechrau gwych i'r ymgyrch codi arian.

- I gloi, cyhoeddodd y Cadeirydd ei fod wedi ymweld â 'Phartneriaeth Bwyd Sir Gâr' yn ddiweddar ar Fferm Bremenda Isaf ac fel Llywydd, ymwelodd ag 'Ardd Allanol' Ysgol Bro Dinefwr cyn mwynhau'r cyngerdd gyda'r nos yn Eglwys Teilo Sant, Llandeilo

- Achubodd y Cynghorydd Glynog Davies, yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg yn dilyn cymeradwyaeth y Cadeirydd, ar y cyfle i ffarwelio â Mr Gareth Morgans, Cyfarwyddwr Addysg ar ôl iddo ymddeol ddiwedd mis Hydref. Mynegwyd diolchiadau i Mr Morgans am ei ymrwymiad pendant wrth weithio gyda'r Cyngor. Roedd y gwaith yr oedd wedi'i wneud dros addysg yn Sir Gaerfyrddin yn amhrisiadwy ac roedd swyddogion a'r Cyngor wedi elwa ar ei wybodaeth a'i gyngor. Estynnwyd dymuniadau gorau iddo ar ei ymddeoliad.

- Rhoddodd y Cynghorydd Kevin Madge, yn dilyn cymeradwyaeth y Cadeirydd, deyrnged gynnes i'r cyn-Gynghorydd Terry Davies, a elwir yn annwyl yn Terry Coch, yn dilyn ei farwolaeth yn ddiweddar.

4. CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD, AELODAU'R CABINET A'R PRIF WEITHREDWR

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd wedi cael gwybod am unrhyw gyhoeddiadau.

5. CYMERADWYO A LLOFNODI COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 11 MEDI 2024 YN GOFNOD CYWIR

Codwyd y diwygiadau canlynol:-

Cofnod 2 – Datganiad Buddiant:-

- O ran yr holl Ddatganiadau o Fuddiant sy'n ymwneud â'r Lwfans Tanwydd Gaeaf, dywedwyd bod y geiriad i'w newid wedi'i 'dderbyn'.

- Cywiro'r cofnodion i adlewyrchu Datganiad Buddiant y Cynghorydd Shepherdson ei fod yn derbyn y Lwfans Tanwydd Gaeaf.

PENDERFYNWYD, ar yr amod y byddai'r newidiadau a godwyd yn cael eu gwneud, lofnodi cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 11 Medi 2024, i nodi eu bod yn gywir

6. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Cafodd y Cyngor Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023/24 i'w gymeradwyo. Cyflwynodd Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau, Mrs Daphne Evans yr adroddiad yn absenoldeb Mrs Mary Dodd, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, gan dynnu sylw at y pwyntiau amlycaf. Rhoddodd yr adroddiad wybodaeth am weithgareddau'r Pwyllgor Safonau yn ystod y flwyddyn ac roedd yn darparu asesiad ynghylch a oedd Arweinwyr Grŵp y Cyngor wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan Ddeddf 2021 i wneud y canlynol:

1. Cymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau eu grwpiau a;
2. Chydweithredu â Phwyllgor Safonau'r Cyngor wrth arfer swyddogaethau'r Pwyllgor Safonau.

PENDERFYNWYD gymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023/2024.

7. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2023/24

Cafodd y Cyngor Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2023/24 i'w gymeradwyo. Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Mr David MacGregor, wedi'i ddatblygu i roi sicrwydd ar waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wrth sicrhau tryloywder, atebolrwydd a llywodraethu effeithiol.

Wrth gyflwyno'r cyntaf o adroddiadau o'r fath, cydnabu Mr MacGregor yr heriau cyllidebol presennol yr oedd y Cyngor yn eu hwynebu ac amlygodd fod y Pwyllgor yn darparu craffu annibynnol ar berfformiad ariannol ac anariannol yr awdurdod, ei gysylltiad â risg yn ogystal â goruchwylio'r broses adrodd ariannol.

Pwysleisiwyd bod yr heriau o ran cyllideb y dyfodol yn bryder gwirioneddol a byddai gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn parhau i weithio gyda swyddogion, archwilwyr a Chynghorwyr i gyflawni ei ddyletswydd.

PENDERFYNWYD gymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023/2024.

8. YSTYRIED ARGYMHELLION Y CABINET O RAN YR EITEMAU CANLYNOL

8.1. ADRODDIAD BLYNYDDOL YNGHYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION DARBODAETH 2023-2024

Atgoffwyd y Cyngor, yn ei gyfarfod ar 1 Mawrth 2023 (gweler cofnod 5.3), ei fod wedi mabwysiadu Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2023-24. Rhoddodd yr adroddiad hwn, yn dilyn argymhelliad i'w gymeradwyo gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 16 Medi 2024 (gweler cofnod 6) Adroddiad Blynyddol y Cyngor ynghylch Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodaeth ar gyfer 2023-24.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Cabinet:

"bod Adroddiad Blynyddol 2023-24 ynghylch Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodaeth yn cael ei gymeradwyo."

9. DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD A CABINET A GYNHALIWYD AR 16 MEDI 2024

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 16 Medi 2024.

10. YSTYRIED Y RHYBUDDION O GYNNIG CANLYNOL:-

10.1. RHYBUDD O GYNNLIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORWYR ALEX EVANS A LOUVAIN ROBERTS

[NODER: Ar ôl datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, yn unol â'r ollyngiad, arhosodd Mr M. Palfreman yn y cyfarfod ond ni chymerodd ran yn y bleidlais.]

Bu'r Cyngor yn ystyried y rhybudd o gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Alex Evans a Louvain Roberts:-

'Mae'r cyngor hwn yn gwrthwynebu'r penderfyniad a wnaed gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i gwtogi gwasanaethau'r Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty'r Tywysog Phillip yn Llanelli o wasanaeth 24/7 i un a fydd ond yn gweithredu o 8am tan 8pm am y 6 mis nesaf, gan ddechrau ar 1 Tachwedd.

Ar ôl eisoes colli'r gwasanaeth damweiniau ac achosion brys, dylai tref fwyaf Gorllewin Cymru o leiaf ddisgwyl cael Uned Mân Anafiadau llawn amser gan Hywel Dda i ddarparu gofal brys.

Hefyd, gallai cwtogi'r gwasanaeth hwn gael effaith niweidiol ar amseroedd aros am ofal brys i drigolion ledled Sir Gaerfyrddin, gyda thrigolion Llanelli a'r ardal ehangach yn gorfod teithio i Ysbyty Glangwili yng Nghaerfyrddin dros y misoedd nesaf i gael gofal brys.

Mae'r cyngor hwn yn galw ar Hywel Dda i archwilio pob opsiwn ar frys i staffio'r Uned Mân Anafiadau yn llawn yn Ysbyty Tywysog Phillip ac adfer y gwasanaeth 24/7. Mae'r cyngor hwn hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru ac Ysgrifennydd Cabinet Cymru dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ymyrryd ar ran trigolion Llanelli os oes angen.'

Eiliwyd y cynnig.

Rhoddwyd cyfle i gynigwyr ac eilydd y Cynnig siarad o blaid y Cynnig a bu iddynt amlinellu'r rhesymau dros ei gyflwyno, fel y'u nodwyd yn y Cynnig.

Gwnaed nifer o sylwadau yn mynegi cefnogaeth i'r Cynnig.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gefnogi'r Rhybudd o Gynnig gwreiddiol a'i gyfeirio i'r Cabinet.

10.2. RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORWYR ALUN LENNY A DENISE OWEN

'Bu'r Cyngor yn ystyried y rhybudd o gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Alun Lenny a Denise Owen:-

Annog y Canghellor i ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer cyllid cynghorau lleol unwaith eto

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin am longyfarch y Gwir Anrhydeddus Rachel Reeves AS am fod y fenyw gyntaf i gael ei phenodi'n Ganghellor y Trysorlys yn Llywodraeth y DU.

Gallwn gydymdeimlo â hi ar ymgymryd â'r rôl heriol hon fel cynghorau lleol sydd wedi gorfod ymdopi â chyfran anghymesur o doriadau gwariant yn ystod 14 mlynedd o gyni didostur gan y Llywodraeth Geidwadol. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, oherwydd diffyg cyllid parhaus gan y llywodraeth, bellach £120m yn waeth ei fyd, mewn termau real, nag yr oeddem ddegawd yn ôl.

Mae hwn yn gyfnod pryderus iawn i bob cyngor a'i staff, ac mae llawer bellach yn gwegian ar ymyl trychineb ariannol. Mae Ysgrifennydd Cyffredinol UNSAIN, Christina McAnea, wedi rhybuddio bod gwasanaethau hanfodol di-ri a llawer iawn o swyddi hanfodol mewn perygl, gyda chanlyniadau ofnadwy i gymunedau ledled Prydain.

Rydym yn annog y Canghellor yng nghyllideb yr hydref sydd ar ddod i ddarparu sylfaen gynaliadwy ar gyfer cyllid llywodraeth leol unwaith eto, drwy ddefnyddio'r £10b sydd ar gael oherwydd penderfyniad Banc Lloegr i arafu ei raglen tynhau meintiol.

Mae angen cyllid refeniw ychwanegol brys (drwy Fformiwla Barnett i Gymru) ar gyfer gwasanaethau hanfodol fel:

Gofal Cymdeithasol – ar gyfer poblogaeth sy'n cynnwys canran gynyddol o bobl hŷn sydd angen gofal preswyl a chymunedol

Gwasanaethau Plant – sy'n wynebu galw digynsail a phwysau ariannol difrifol

Ysgolion – sy'n ei chael hi'n anodd, neu'n methu byw yn unol â'r cyllidebau sydd wedi'u dyrannu, gan arwain at effaith ar lefelau staffio a'r cwricwlwm sy'n cael ei ddarparu

Priffyrdd – sy'n dirywio yn dilyn degawd o doriadau o flwyddyn i flwyddyn mewn cyllidebau cynnal a chadw, fel y dangosir gan y nifer cynyddol o dyllau ar ein ffyrdd.

Rydym yn annog y Canghellor ymhellach i ddarparu ar gyfer pwysau chwyddiant ar gyllidebau llywodraeth leol, ac i sicrhau y dylai setliadau cyflog sy'n cael eu pennu'n ganolog gael eu hariannu'n llawn gan lywodraeth ganolog'.

Eiliwyd y cynnig.

Rhoddwyd cyfle i gynigwyr ac eilydd y Cynnig siarad o blaid y Cynnig a bu iddynt amlinellu'r rhesymau dros ei gyflwyno, fel y'u nodwyd yn y Cynnig.

Gwnaed nifer o sylwadau o blaid ac yn erbyn y Cynnig.

PENDERFYNWYD cefnogi'r Rhybudd o Gynnig gwreiddiol a'i gyfeirio i'r Cabinet.

11. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

12. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU:-

12.1. CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD DERYK CUNDY I'R CYNGHORYDD GLYNOG DAVIES, YR AELOD CABINET DROS ADDYSG A'R GYMRAEG

[NODER: SYLWER: Gan fod y Cynghorydd J.P. Hart wedi datgan buddiant yn yr eitem hon eisoes, nid oeddent yn bresennol yn y cyfarfod tra bo'r Cynghorwyr yn ei hystyried ac yn pleidleisio arni.]

'Ynghylch yr amcangyfrif gwreiddiol o ran y Gwariant Cyfalaf ar Heol Goffa a osodwyd yn wreiddiol ar £17 miliwn o bunnoedd, lle byddai £4.25 miliwn yn cael ei ddarparu o gyllideb Gyfalaf Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin o £20.5 miliwn a'r gwahaniaeth o £12.75 miliwn yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru, a fydd y Weinyddiaeth hon yn dal i wario'r arian a neilltuwyd sef £4.25 miliwn ar brosiectau i gefnogi plant ag Anghenion Dibyniaeth Uchel mewn Addysg neu a fydd yn defnyddio'r arian hwn ar gyfer prosiectau Cyfalaf Addysg eraill nad ydynt yn cefnogi ein plant ag Anghenion Dibyniaeth Uchel.'

Ymateb gan y Cynghorydd Glynog Davies – yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg

Deryk, fel y gwyddoch ac yr ydym wedi'i glywed eto y bore yma, rwyf wedi gofyn i arbenigwr annibynnol adolygu'r ddarpariaeth ADY yn ardal Llanelli. Mae David Davies wedi dechrau'r gwaith hwn ac mae'n cyfarfod ag amrywiaeth o randdeiliaid allweddol i lywio ei gyngor i ni fel Cabinet. Bydd yn rhoi opsiynau wedi'u costio i ni mewn perthynas â darparu gwasanaethau i ddysgwyr Llanelli, gan gynnwys ysgol newydd.

Nid wyf yn glir ynglŷn â'r disgrifiad a ddefnyddir gan y Cynghorydd Cundy, sef Plant Anghenion Dibyniaeth Uchel - nid yw hynny'n derm a ddefnyddir gennym yn yr Adran Addysg. Fel Awdurdod Lleol, rydym yn darparu ystod o wasanaethau i ddiwallu anghenion amrywiol pob dysgwr ag ADY. Mae gennym fodel pedwar cam a'r haen gyntaf yw'r ddarpariaeth gyffredinol a ddarperir gan bob ysgol, yr ail yw mynediad at gymorth ychwanegol a chyngor arbenigol a'r 3ydd a'r 4ydd yw cael mynediad at leoliadau arbenigol sy'n diwallu anghenion ein dysgwyr mwyaf cymhleth. Rydym yn darparu cymorth arbenigol ar gyfer ystod eang o anghenion, er enghraifft, awtistiaeth, nam ar y clyw, anawsterau dysgu penodol, anawsterau dysgu dwys a lluosog, lleferydd, iaith a chyfathrebu.

O ran y cyllid cyfalaf sydd ar gael, byddwch yn gwybod bod gennym amlen ariannu i gyflawni ein prosiectau. Rhaid i'r amlen ariannu honno gefnogi anghenion dros 1,100 o ysgolion ac mae yna ddyletswydd i ddarparu gwerth am arian. Rwyf wedi gwneud nifer o ddatganiadau yn y Siambr hon a'r Cabinet ac mae'r pwyslais yma ar arian eto.

Felly, rwyf wedi gofyn i'r Llywodraeth ateb y cwestiwn ac mewn perthynas â mwy o arian, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru mai dim ond 75% o gostau chwyddiant y bydd yn eu hariannu.

Diolch am y cwestiwn, ond byddwn yn rhoi rhagor o wybodaeth ar ôl i ni gael yr adroddiad a byddwn yn ei drafod ac yn cyflwyno'r hyn sydd ei angen.

Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Deryk Cundy

Nid wyf yn siŵr a ydych chi wedi ateb y cwestiwn mewn gwirionedd. Ni wnaethoch ateb y cwestiwn, felly byddai'n well gen i pe baech yn ateb y cwestiwn yn y lle cyntaf.

Ymateb gan y Cynghorydd Glynog Davies – yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg

Rwyf wedi ateb y cwestiwn gan fy mod yn credu y dylid ei ateb. Dylech fod yn ymwybodol o'r adolygiad. Mae'r adolygiad yn digwydd ac ni fydd unrhyw beth yn cael ei gynllunio hyd nes i ni dderbyn yr adroddiad hwnnw.

12.2. CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD MARTYN PALFREMAN I'R CYNGHORYDD EDWARD THOMAS, YR AELOD CABINET DROS WASANAETHAU TRAFNIDIAETH, GWASTRAFF A SEILWAITH

Yn absenoldeb y Cynghorydd Edward Thomas, ar gais y Cynghorydd Martyn Palfreman, tynnwyd y cwestiwn yn ôl.

13. CYMERADWYO'R NEWIDIADAU CANLYNOL I AELODAETH PWYLLGORAU:-

13.1. PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL FOD Y CYNGHORYDD DAI NICHOLAS YN LLENWI SEDD WAG Y GRŴP LLAFUR AR Y PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU

14. COFNODION ER GWYBODAETH

Dywedodd y Cadeirydd fod y cofnodion a amlinellir ar yr agenda dan 14.1 – 14.5 ar gael er gwybodaeth ar wefan y Cyngor.

_____ _____

Y CADEIRYDD **Y DYDDIAD**